adolygiad blynyddol 2009-2010

dros adferiad
o afiechyd
meddyl difrifol

hafal

for recovery
from serious
mental illness

2009-2010: Blwyddyn o gyfleoedd i Hafal

Efallai y bydd 2009-2010 yn cael ei chofio fel blwyddyn o ddirwasgiad, ond i Hafal, bu'n flwyddyn o greu cyfleoedd. Yn ystod 2009-2010, codon ni ddisgwyliadau addysgol a rhagolygon cyflogaeth ein cleientiaid – a chyflawnodd ein cleientiaid bethau mawr.

Ym mis Mai, cynhaliodd Hafal seminar i archwilio mynediad i addysg ar gyfer pobl gydag afiechyd meddwl difrifol; arweiniodd hyn at gynllun cychwynnol oedd yn argymell gweithredau allweddol ar gyfer darparwyr addysg ac iechyd. Dilynwyd hyn gan ein hymgyrch "Gallwn Wneud Hyn!" pan gynigodd Hafal gyrsiau TG i'n cleientiaid ym mhob sir. Llwyddodd dros 300 i ennill cymwysterau TG gydag achrediad OCN fel rhan o'r ymgyrch, oedd yn ganlyniad rhagorol.

Cynyddodd Canolfan Ddysgu Hafal ei gweithgareddau hyfforddi ac addysg yn ystod 2009-2010, gan ennill cleientiaid newydd a sicrhau nawdd sylweddol gan Comic Relief er mwyn cynnig hyfforddiant Claf Arbenigol. Hefyd, dengys adroddiadau o bob prosiect yng Nghymru fod 54 o gleientiaid wedi dychwelyd i weithio eleni, 185 wedi cymryd rolau gwirfoddol a 199 wedi mynd i mewn i addysg. Helpwyd hyn gan brosiect Camau Bychain y Gronfa Loteri Fawr, a lansiwyd yn 2009, ac sy'n cefnogi pobl gydag afiechyd meddwl difrifol i gymryd camau tuag at gyflogaeth. O ystyried yr anawsterau yn y farchnad swyddi gyfredol, mae hwn yn wasanaeth croesawol ac, a dymunwn bob llwyddiant i'r cleientiaid hyn yn eu hymdrechion.

Yn y cyfamser, mae ein gwasanaethau lleol wedi parhau i gefnogi llawer o bobl gydag afiechyd meddwl difrifol i gyflawni eu nodau. Mae gormod o ddatblygiadau i'w rhestru yma o ran y gwasanaethau, ond mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys Hafal Blaenau Gwent yn ennill nawdd o £37,000 o'r Silent Valley Trust i adnewyddu eu Canolfan Adnoddau; cleientiaid Wrecsam yn chwarae rhan bwysig mewn cynllun peilot arloesol sydd wedi'i anelu at roi mewnbwn uniongyrchol i gleientiaid i'r broses o hyfforddi myfyrwyr seiciatrig; a datblygu cronfa ddata bwrpasol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau lleol yn Rhondda, sy'n darparu atgofiadau wythnosol am ddyddiadau adolygiadau.

Yn 2009, enillodd Hafal nawdd gan y Gronfa Loteri Fawr i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed dros y blynyddoedd nesaf, a llwyddom i gael ddarllediad elusennol ar BBC1 a BBC2 Cymru ym mis Ionawr 2010. Roedd y darllediad yn cyflwyno neges bwysig i gynulleidfa o tua miliwn o bobl, ac fe wnaeth ei agwedd ffres ac atyniadol i lawer ohonynt feddwl eto am eu dealltwriaeth o salwch meddyliol. Mae ein proffil yn parhau i godi.

O ran ein gwaith ymgyrchu, mae'n bleser arbennig gen i adrodd bod Hafal wedi arwain ymgyrch lwyddiannus ar ddatganoli pwerau perthnasol o San Steffan i Gaerdydd, fel y gallwn edrych ymlaen at ddeddfau iechyd meddwl newydd yng Nghymru. Eleni, rydym hefyd wedi cymryd camau sylweddol yn ein gwaith o gefnogi pobl gydag afiechyd meddwl difrifol sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol – grŵp o gleientiaid arbennig o fregus rydw i wedi gael cysylltiad gyda nhw.

Fe hoffwn i ddiolch i holl gefnogwyr Hafal am eu hymroddiad a'u cefnogaeth barhaol wrth wneud Hafal yr elusen iechyd meddwl mwyaf blaenllaw ac arloesol yn y DU. Edrychaf ymlaen at adrodd ar fwy o ddatblygiadau arloesol yn ystod 2010-2011!

Elin Jones

Cadeirydd, Hafal

Cyflwyno ein gwasanaeth

Yn 2009-2010, ehangodd Hafal ei wasanaethau ar gyfer ei 1,000 a mwy o gleientiaid ar draws y 22 sir yng Nghymru, gan lansio gwasanaethau newydd hanfodol yn ymwneud â chyfiawnder troseddol a gwasanaethau cyflogaeth.

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

LLOYDS TSB FOUNDATIONS

Ym mis Hydref, cafodd **Gwasanaeth Cyswllt** Hafal, sy'n cynnig cyswllt i bobl yn y system cyfiawnder troseddol i wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, ei lansio yn y Senedd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AC. Mae'r prosiect arloesol hwn yn cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr a'r Lloyds TSB Foundations, ac yn cyflwyno cefnogaeth i un o'r grwpiau cleientiaid mwyaf bregus, ac sy'n cael eu hesgeuluso fwyaf.

Gwasanaeth Link Cyswllt Service

CAMAU BYR SHORT STEPS

Adroddodd prosiectau Hafal o bob cwr o Gymru bod nifer sylweddol o'u cleientiaid wedi llwyddo i ddychwelyd i weithio yn ystod 2009 – sy'n gam mawr tuag at gael bywyd o well ansawdd. Ategwyd hyn gan lansiad y **prosiect Camau Bychain** cenedlaethol yn ystod y gwanwyn. Mae'r prosiect hwn, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr, yn cefnogi pobl gydag afiechyd meddwl difrifol i fanteisio ar gyfleoedd addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth. Yng nghyd-destun y dirwasgiad cyfredol, mae hwn yn brosiect hanfodol, fydd yn gwella rhagolygon ein cleientiaid yn fawr.

O amgylch Cymru

Uchafbwyntiau o'r amrediad eang o waith a gyflawnwyd gan brosiectau Hafal ledled Cymru…

- **Hafal Merthyr:** Cyflwynwyd Gwobr Rhagoriaeth mewn Menter Gymdeithasol i arweinydd y prosiect, Shan Davies, mewn seremoni wobrwyo a drefnwyd gan Grŵp Menter Merthyr Tudful. Roedd y wobr yn cydnabod y ffordd fentrus y caiff y prosiect ei redeg, a'r modd y mae'n helpu pobl gydag afiechyd meddwl difrifol yn y gymuned.

- **Hafal Sir Ddinbych:** Ehangwyd gwasanaethau Cefnogaeth Teulu Sir Ddinbych i Ysbyty dydd Glan Traeth. Mae'r gwasanaeth bellach yn ymestyn allan i ofalwyr unigolion gydag afiechyd meddwl difrifol sydd dros 65 oed.

- **Hafal Ynys Môn:** Coleg Menai, Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a Want2Work oedd rhai o'r sefydliadau a fynychodd ddiwrnod agored yn Ynys Môn dan y thema "Gallwn Wneud Hyn!" ar Awst 27ain. Dywedodd y Cydlynydd Cefnogaeth Teulu, Cathrin Jones: "Daeth Albert Owen AS draw am baned. Roedd o'n frwdfrydig iawn am waith Hafal ar yr ynys!"

- **Hafal Blaenau Gwent:** Enillodd y prosiect gais am £37,000 gan y Silent Valley Trust i adnewyddu eu Canolfan Adnoddau. Cynorthwyodd y defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr gyda'r gwaith atgyweirio ac addurno.

- **Hafal Sir Benfro:** Trefnodd a chynhaliodd y prosiect Arddangosfa Ffotograffiaeth a Chelf dros dri diwrnod a fynychwyd gan dros 200 o bobl. Cafodd gwaith pum aelod ei arddangos hefyd yn yr Arddangosfa 'Celf Agored/Open Art' yng Nghanolfan Mileniwm Caerdydd.

- **Hafal Ceredigion:** Derbyniodd Rik Mowbray, Gweithiwr Cefnogol yng Nghlwb Cymdeithasol Hafal yn Aberystwyth, wobr am "Helpu Pobl mewn Sefyllfaoedd Anodd" gan y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan. Roedd y wobr yn rhan o gynllun gan Lywodraeth y Cynulliad o'r enw "Cydnabod Llwyddiant" oedd, yng ngeiriau Mr Morgan, "yn dathlu cyfraniad aruthrol pobl gyffredin i'n cymdeithas". Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yng Nghastell Caerffili a mynychodd Rik y digwyddiad gyda thri o ddefnyddwyr gwasanaethau Hafal. Derbyniodd Leanne Kelly ddwy wobr wirfoddoli: un gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) a'r ail gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Dywedodd Leanne bod ennill y gwobrau hyn, oedd yn cydnabod ei gwaith yn y Clwb Cymdeithasol yn Aberystwyth, yn "wych" ac wedi gwneud iddi deimlo'n falch iawn o'i chyfraniad.

- **Hafal Conwy:** Mae defnyddwyr gwasanaethau Bae Colwyn wedi ffurfio partneriaeth gyda stiwdio recordio ym Mae Colwyn er mwyn iddynt allu chwarae offerynnau byw, ysgrifennu, cyfansoddi, cymryd rhan mewn rhaglenni radio a dysgu am oleuo a sain ar gyfer y llwyfan.

- **Hafal Rhondda:** Yn ystod yr haf, cyfunodd prosiectau Rhondda a Cynon, a chwaraeodd y defnyddwyr gwasanaethau ran allweddol yn y gwaith o ailstrwythuro'r uned. Roedd gwaith y cleientiaid o safon uchel iawn, gan amlygu eu sgiliau, eu hyder a'u hymrwymiad i'r prosiect Cafodd Hafal RhCT ei agor yn swyddogol ar Hydref 31, gan Ddirprwy Faer Rhondda Cynon Taf.

Cyflwyno ein harbenigedd

Parhaodd Canolfan Ddysgu Genedlaethol Hafal i ddatblygu a chryfhau'r amrywiaeth o hyfforddiant a gynigir yno i staff ac i amrediad eang o wasanaethau ac asiantaethau allanol yn ystod 2009-2010. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynigiodd y Ganolfan Ddysgu hyfforddiant i dros 50 o gleientiaid a defnyddwyr gwasanaethau mewn Cynllunio Rhaglen Adferiad, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Sgitsoffrenia, Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Hyfforddiant Cyfathrebu. Cymerodd cyfanswm o 300 o ddefnyddwyr ran mewn Cwrs Achrededig Sgiliau Sylfaenol Cyfrifiaduron Agored.

Y llynedd, datblygodd y Ganolfan Ddysgu gyfle arall i'r bobl sy'n hyfforddi gyda ni ennill cymhwyster. Gan gadw anghenion ein defnyddwyr gwasanaethau ni mewn golwg yn benodol, sefydlwyd ein Canolfan Asesu Agored ein hunain, drwy gynnig hyfforddiant TG sylfaenol i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae hyn, ynghyd â'n rhaglenni City & Guilds a Chanolfan ILM, yn rhoi mynediad i'r rhai sy'n hyfforddi gyda ni i amrywiaeth eang o hyfforddiant achrededig ac yn eu cysylltu â'r Fframwaith Cymhwyster a Chredyd newydd. Ar hyn o bryd, mae gennym 13 aelod o staff yn gwneud eu NVQ Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Hafal, gyda 17 aelod arall o staff yn gwneud NVQ lefel 2 a 3 gyda cholegau lleol, sydd yn cydweithio mewn partneriaeth â Hafal.

Yn ddiweddar, enillodd y Ganolfan Ddysgu nawdd o £124,000 gan Comic Relief tuag at gostau Hyfforddwyr Claf Arbenigol. Bydd y wobr hon yn galluogi Hafal i gyflogi dau hyfforddwr arbenigol i hyfforddi ymgynghorwyr defnyddwyr gwasanaethau eraill sydd eisiau bod yn hyfforddwyr eu hunain. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dechreuwyd hefyd ar waith i gyflwyno Gwobrau a Thystysgrifau ILM (Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth) i 22 o Arweinwyr Ymarfer sy'n rheoli prosiectau ar gyfer Hafal, a phedwar aelod o'n Tîm Cyswllt Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r Ganolfan Ddysgu Genedlaethol yn parhau i ddatblygu amrediad a safon ei gwasanaethau hyfforddi pwrpasol ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau allanol. Mae'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru yn rhoi pwyslais mawr ar gynllunio gofal yn gyfannol, a thros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith i gefnogi timau i ymateb i'r sylw hwn ar adferiad wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig cefnogaeth hyfforddi i Gynghorwyr Iechyd Galwedigaethol a Rheolwyr AD mewn ymdrech i gael ymateb iach yn y gweithle i staff sy'n byw gydag afiechyd meddwl, ac rydym wedi rhoi cyngor a chefnogaeth i staff i sefydlu eu grwpiau cefnogaeth cyfoed eu hunain ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Roedd menter hyfforddi Dysgu o Brofiad Hafal ymysg y goreuon yn y Gwobrau Acolâd Gofal Cymdeithasol yn 2009 ("Oscars" y proffesiwn gofal cymdeithasol!). Dywedodd Irene Hogan, Pennaeth y Ganolfan Ddysgu Genedlaethol: "Mae hyn yn cadarnhau bod Canolfan Ddysgu Hafal ar flaen y gad o ran ymarfer a darparu hyfforddiant yn y sector iechyd meddwl."

Cyflwyno ein neges

Bu gwaith Materion Cyhoeddus Hafal yn ystod 2009-10 yn canolbwyntio ar gyfres o faterion iechyd meddwl, gan gynnwys stigma, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol a sicrhau bod deddfau iechyd meddwl newydd ar gyfer Cymru yn deg ac yn gynhwysfawr.

- Cafodd darllediad elusennol, yn hysbysu gwylwyr teledu am wasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr Hafal ei ddarlledu ar BBC Wales yn ystod y flwyddyn. Cafodd y darllediad, a ysbrydolwyd gan ein cleientiaid, ei ddangos tua 25 o weithiau ac roedd yn awgrymu, mewn ffordd llawn hiwmor, mai'r bobl sydd â'r ddealltwriaeth orau o unrhyw sefyllfa yw'r bobl hynny sydd wedi byw drwyddo eu hunain. Cafodd y darllediad ei dderbyn yn dda gan gleientiaid a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a'i wylio gan tua **miliwn o bobl.**

- Yn 2009-10 dechreuodd Hafal ganolbwyntio ar grŵp o bobl sydd wedi cael eu hesgeuluso yn rhy hir: pobl ifanc gydag afiechyd meddwl difrifol. Ym mis Awst, enillodd Hafal dros £150,000 gan gynllun "Pobl a Llefydd – Buddsoddi yn ein cymunedau" y Gronfa Loteri Fawr Bydd y dyfarniad hwn, fydd yn ymestyn dros gyfnod o dair blynedd, yn galluogi Canolfan Wybodaeth Hafal i ehangu ei wasanaeth i ddelio â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n dioddef o afiechyd meddwl difrifol.

- Cafodd tystiolaeth ynghylch darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol yng Nghymru ei gyflwyno gan Hafal i Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad. Yn ystod cyfarfod dwy awr, derbyniodd y Pwyllgor ymateb gan Hafal ar sawl agwedd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. Cyflwynwyd tystiolaeth Hafal gan Alun Thomas, y Dirprwy Brif Weithredwr, Colette Dawkin, sy'n ddefnyddiwr gwasanaethau ac yn Ymddiriedolwr, a Lee McCabe, aelod o staff sydd hefyd yn ddefnyddiwr gwasanaethau.

- Cafodd ymwelwyr i stondinau Hafal yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol wybodaeth am gyflwr y gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru mewn ffordd oedd yn hwyl ac yn addysgiadol, a hynny diolch i'r ffigwr enwog o'r stori tylwyth teg, Sinderela, oedd wrth law, gyda'i choets, i gyfarch yr ymwelwyr. Thema stondin Hafal oedd "Peidiwch â'n sgubo dan y carped!" a dosbarthwyd miloedd o daflenni yn y ddau ddigwyddiad.

- Yn 2009, cyflwynodd Hafal ddiwrnod hyfforddi arloesol yng Nghaerdydd am sut i roi cefnogaeth i bobl gydag afiechyd meddwl difrifol sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Cafodd Hafal gefnogaeth yr elusen o Ogledd Iwerddon, MindWise, yn y digwyddiad. Daeth nifer o wirfoddolwyr, gan gynnwys nifer sylweddol o fyfyrwyr y gyfraith, i gymryd rhan yn yr hyfforddiant, a gynhaliwyd yn Ysgol y Gyfraith Caerdydd. Yn ystod y diwrnod hyfforddi, cafodd y cyfranwyr wybod am amcanion y rôl Oedolyn Cyfrifol, trafod astudiaethau achos a chymryd rhan mewn ymarferion chwarae rôl.

- Ym mis Gorffennaf, bu'r Dirprwy Brif Weithredwr, Alun Thomas, yr aelod staff a defnyddiwr gwasanaethau, Lee McCabe, yn siarad â grŵp o Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) ar gyfer Iechyd Meddwl yng Nghymru a gynigiwyd gan Jonathan Morgan.

- Aeth Hafal ati i geisio trafod yr amrywiaeth o anghenion a wynebir gan ofalwyr yn y "Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Gofalwyr", sef cyhoeddiad a fu'n hynod boblogaidd. Mae'r cynllun yn nodi'r camau cadarnhaol y gall gofalwyr eu cymryd i symud ymlaen a chefnogi'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt.

- Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghanolfan Adnoddau Genedlaethol Hafal yn Sain Ffagan ym mis Chwefror, a hynny i ddathlu'r Gymeradwyaeth Frenhinol ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Iechyd Meddwl Jonathan Morgan, AC Gogledd Caerdydd. Dywedodd Mr Morgan bod y dystiolaeth gryfaf o blaid diwygio wedi dod gan ddefnyddiwr gwasanaethau Hafal, Lee McCabe. Wrth siarad am yr LCO yn y digwyddiad, dywedodd Lee: "Wedi i mi roi tystiolaeth i'r pwyllgor oedd yn ystyried yr LCO, rwy'n falch o'i weld yn cael Cymeradwyaeth Frenhinol o'r diwedd."

- Yn ei gyfweliad cyntaf ers sefydlu'r Byrddau Iechyd Lleol newydd, rhoddodd Prif Weithredwr GIG Cymru, Paul Williams, gydnabyddiaeth i'r ffaith bod gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn anghyson iawn ledled Cymru. Mewn cyfweliad dadlennol gyda newyddlen Hafal, Iechyd Meddwl Cymru, yn yr hydref, dywedodd Mr Williams ei fod yn rhannu rhwystredigaeth y defnyddwyr gwasanaethau ynghylch arafwch y newid mewn gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

- Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o Raglen Adferiad unigryw Hafal, 'Fy Adferiad I - cynllun cam wrth gam ar gyfer pobl gydag afiechyd meddwl difrifol" yn ystod yr haf. Yn seiliedig ar brofiadau a barn cannoedd o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, nod "Fy Adferiad I" yw rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaethau i gael rheolaeth o'u salwch, i edrych ar rannau o'u bywyd, eu hystyried, a gosod nodau neu dargedau, a chael agwedd gadarnhaol tuag at gyflawni'r adferiad gorau posibl.

- Cafwyd cyfle allweddol ym mis Chwefror i hyrwyddo agwedd Hafal tuag at adferiad, a hynny ar lefel genedlaethol, pan roddodd Prif Weithredwr Hafal, Bill Walden-Jones, dystiolaeth i'r Coleg Seiciatryddion Brenhinol (RCP) yn Llundain. Gwahoddwyd Bill i siarad â Phrosiect Ail-lunio Gwasanaethau (Service Redesign Project) yr RCP, am y gwahanol ffyrdd y caiff gofal iechyd meddwl cymunedol a chleifion mewnol eu cyflwyno ledled Prydain. Tynnodd sylw at y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gael sylw canolog ar gynllunio gofal unigol, a hynny yn seiliedig ar fethodoleg adferiad Hafal.

- Roedd y sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys eitemau ar Radio Cymru, Radio Wales, BBC Wales, ITV Wales ac yn y Western Mail, yn ogystal ag erthyglau mewn papurau lleol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys ymddangosiad Chris Eastwood, un o Ymddiriedolwyr Hafal, a Teresa Petrykowski, Rheolwr Hafal yng Ngogledd Cymru, ar raglen feddygol Radio Wales, 'The Irritated Consultant'. Ym mis Mai, ymddangosodd Bill Walden-Jones, Prif Weithredwr Hafal, a Jo Roberts, un o'r defnyddwyr gwasanaethau, ar raglen Dragon's Eye, ar BBC Wales, i siarad am Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Diogel.

Uchafbwynt y flwyddyn ymgyrchu oedd "Gallwn Wneud Hyn!" – ymgyrch genedlaethol i helpu hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg i bobl gydag afiechyd meddwl difrifol. Roedd gan yr ymgyrch dri phrif bwrpas: cael llawer o hwyl, rhoi sgiliau go iawn i bobl ac adeiladu cysylltiadau rhwng grwpiau anghenion uchel a'r gwasanaeth addysg. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys:

- Seminar "Gallwn Wneud Hyn!" a ddaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gwneuthurwyr polisïau, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl at ei gilydd i archwilio ffyrdd o weithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod pobl gydag afiechyd meddwl difrifol yn cael yr un mynediad i gyfleoedd addysg a hyfforddiant a phawb arall yn ein cymdeithas. Mynychodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar y pryd y gynhadledd, a chynnig cyd-destun polisi'r Cynulliad. Disgrifiodd y Gweinidog y seminar fel "diwrnod gwych".

- Cynhaliwyd cynhadledd yn Llanfair-ym-Muallt yn yr hydref dan y teitl "Gallwn Wneud Hyn!", a daeth dros 200 o bobl yno. Cafodd yr ymwelwyr gyfle i gymryd rhan mewn "Taith o amgylch Cymru" drwy ymweld â 22 o stondinau rhyngweithiol oedd yn dangos amrediad eang gwaith Hafal. Cynhaliwyd nifer o seminarau a gweithdai ar gyflogaeth, budd-daliadau, addysg a hyfforddiant yn ystod y dydd

Mae Hafal yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am eu cefnogaeth yn ystod 2009/2010...

AstraZeneca Ltd.
BILl Aneurin Bevan
BILl Cwm Taf
BILl Hywel Dda
BILl Merthyr Tudful
BILl Powys
BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr
BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Comic Relief
Cynghrair Iechyd Meddwl Powys
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sir Benfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Gwynedd
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Dinas a Sir Abertawe
GAVO
Heddlu De Cymru
Ludlow Street Healthcare Group
Lloyds TSB Foundation, Cymru a Lloegr
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mentro Allan
Partneriaethau mewn Gofal
Pastoral Cymru
PAVO
Pfizer UK Foundation
Prosiect Partneriaeth Iechyd Meddwl
Oedolion Conwy a Sir Ddinbych
Rekindle Home
Safer Homes – Nawdd y Swyddfa Gartref
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
Silent Valley Trust
Surehaven
Y Gronfa Loteri Fawr
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Ysbyty Annibynnol Rushcliff
Ysbyty St Luke

...ac i bawb a gyfrannodd yn hael yn ariannol neu o'u hamser, diolch!

Hafal Ystafell C2, Tŷ William Knox, Ffordd Britannic, Llandarsi, Castell Nedd SA10 6EL
Ffôn: 01792 816600 **Ffacs:** 01792 813056 **E-bost:** hafal@hafal.org
Mae Hafal yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.
Rhif cofrestru: 4504443. Rhif elusen: 1093747.

www.hafal.org